

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad y cyfarfod: 14 Mawrth 2024

Teitl: Adroddiad Archwilio Mewnol – Adolygiad Fframwaith Llywodraethu 2023/24

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canfyddiadau

Cynhaliwyd adolygiad yn ddiweddar o'r Fframwaith sy'n cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.

Cyflwynwyd y Fframwaith Llywodraethu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Leol i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2024. Roedd Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn rhan o'r adolygiad.

Mae Archwilio Cymru yn rhoi barn archwilio am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn gyson o ran eu gwybodaeth nhw ohono a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae adolygiad yr adain archwilio mewnol yn cynnwys asesiad o'r gweithdrefnau sydd ar waith i baratoi'r fframwaith llywodraethu a'r fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd ynghyd ag ystyriaeth o'r 'dystiolaeth' a nodwyd yn y fframwaith.

Mae'r adolygiad hwn felly yn ategu gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac mae'n rhoi sicrwydd bod y weithdrefn yn gadarn, yn benodol ac yn effeithiol.

Argymhelliad: Nodi'r adolygiad a wnaed o'r Fframwaith Llywodraethu

Rhesymau dros y penderfyniad: Er gwybodaeth yn unig

Atodiadau: Adroddiad Archwilio Mewnol - Fframwaith Llywodraethu 2023/24

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor
Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro

Swyddog Adrodd: Alex Jenkins
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad: 15 Chwefror 2024

GWASANAETHAU CYFREITHIOL A
LLYWODRAETHU

LEGAL & GOVERNANCE SERVICE

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

ADRODDIAD ARCHWILIO— AUDIT REPORT

Adolygiad Fframwaith Llywodraethu 2023/24

Paratowyd yr adroddiad gan: Alex Jenkins,
Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Chwefror 2024

ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL

Adolygiad Fframwaith Llywodraethu 2023/24

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd adolygiad yn ddiweddar o'r fframwaith sy'n cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.

Cynhaliwyd yr adolygiad i ategu gwaith swyddogion Archwilio Cymru, sy'n rhoi eu barn ar sicrwydd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â'u gwybodaeth a bod trefniadau llywodraethu corfforaethol y sefydliad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau gofynnol.

Rwy'n falch o adrodd bod y systemau a'r gweithdrefnau a archwiliwyd yn foddhaol, gyda gwelliannau i symleiddio'r mecanwaith sgorio wedi digwydd. Mae Fframwaith Llywodraethu wedi'i greu, ac mae gwelliannau ar broses adolygu'r Fframwaith Llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol o ganlyniad wedi'u cynllunio i'w cwblhau yn 2024.

Mae'r rhain gyda'i gilydd yn fy ngalluogi i roi sicrwydd sylweddol bod system gadarn o graffu a chadernid ar waith.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Katy Sinnett-Jones, y Swyddog Llywodraethu am ei chymorth a'i gydweithrediad parod yn ystod yr archwiliad.

AMCAN

Prif amcan yr asesiad yw adolygu gweithdrefn a threfniadau hunanasesu'r fframwaith llywodraethu, y fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd a'r dystiolaeth sydd ar gael, er mwyn rhoi barn i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu ynglŷn â gwerthusiad yr Adain Archwilio Mewnol o'r trefniadau craffu a'r cadernid sydd i'w gweld yn y broses.

Y DULL GWEITHREDU A DDEFNYDDIWDYD GAN YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Cafodd yr asesiad ei gynllunio er mwyn gwerthuso a gyrhaeddwyd y safonau penodol. Yn y bôn, y rhain yw'r safonau a amlinellwyd yn nogfen Gwell Llywodraethu CIPFA. Wrth wneud hynny, mae'r adain archwilio mewnol wedi gwneud y canlynol:

- Archwilio'r safonau a'r fframwaith,
- Cynnal trafodaethau gyda staff allweddol, ac
- Adolygu'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y gwasanaeth i baratoi'r fframwaith, gan gynnwys mynychu'r gweithdai.

CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

Mae'r Swyddog Llywodraethu yn gyfrifol am gydlynu a llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a'r fframwaith sy'n ei gefnogi. Mabwysiadwyd y trefniant presennol o ran y fframwaith yn 2016/17 ac yn unol ag argymhelliad Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru ar y pryd), cynhaliwyd gweithdai i'r Aelodau / swyddogion fel y gellid craffu ar y fframwaith, ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn.

Caiff yr eitemau sy'n dangos enghreifftiau o lywodraethu da wrth ymyl pob egwyddor eu rhestru / eu disgrifio fel tystiolaeth yn y fframwaith.

Yn ystod y gweithdai, cafodd yr Aelodau a'r swyddogion y cyfle i asesu'r eitemau hynny ac i'w sgorio, gan ddefnyddio'r system fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol:

1	Annerbyniol – angen gweithredu ar frys
2	Yn is na boddhaol – angen gweithredu ar frys (o fewn 3-6 mis)
3	Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis)
4	Derbyniol – efallai bod angen cymryd rhai camau
5	Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda ac yn bodloni'r arferion gorau – nid oes angen cymryd camau

Yn ogystal, lle nodwyd gwelliannau posibl, mae camau gweithredu priodol wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r flwyddyn ganlynol.

Yn ystod yr adolygiad archwilio, aseswyd y dystiolaeth a sgoriau'r fframwaith, a darparwyd datganiad/barn ychwanegol i gadarnhau eu heffeithiolrwydd.

CASGLIAD

Ar ôl cynnal yr adolygiad, deuir i'r casgliad bod system gadarn o graffu ac mae'r systemau a'r gweithdrefnau wrth baratoi a sgorio'r fframwaith yn foddhaol, gyda gwelliannau eisoes ar y gweill. Dangosir hyn ymhellach yn yr asesiad o'r dystiolaeth a ddarperir fel sicrwydd yn erbyn pob elfen yn y fframwaith.

05/03/2024

X 

AEJ/AGS
15 Chwefror 2024

Signed by: Alex Jenkins

Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dosbarthwyd yr adroddiad i'r canlynol:

Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethu